# Beth sy'n bwysig i chi?

## Gosod blaenoriaethau ymchwil ar gyfer Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Yr Athro Adrian Edwards (Cyfarwyddwr)

Dr Natalie Joseph-Williams (Tîm Craidd)

**Fforwm Cynnwys ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru**
**11.05.21**

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru
Health and Care Research Wales

# Beth ydyn ni wedi'i ddysgu o bandemig COVID-19?

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

- Mae ymchwil yn bwysicach nag erioed o'r blaen – yn ganolog i bolisi ac arfer yn y pandemig
- Dim tystiolaeth i ddechrau ond wedyn gormod ohoni – heriau cadw i fyny â thystiolaeth newydd a oedd yn dod i'r fei yn gyflym
- Mae angen i ymchwil symud ar yr un cyflymder â'r pandemig i fod yn ddefnyddiol
- Angen cynyddol am gyfuno tystiolaeth yn gyflym a helpu i wneud penderfyniadau
- Angen gwneud yn siŵr bod y dystiolaeth yn berthnasol i Gymru – problemau a blaenoriaethau neilltuol

# Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

- **Diben Craidd**
  - Defnyddio ymchwil a thystiolaeth wrth reoli'r pandemig – helpu i adfer ac ailadeiladu
  - Deall effaith y pandemig ar anghenion iechyd ac anghenion ehangach cymunedau a phobl yng Nghymru
  - Deall effaith y pandemig ar systemau cyflenwi iechyd a gofal yng Nghymru

**Aed ati i wneud ymchwil yn gyflym ond yn drylwyr, ei chyfuno a'i rhoi ar gael i helpu i wneud penderfyniadau**

**RE**search

**GENER**ation

**A**ssimilation

**T**ransfer

**E**mbedding

# Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

- Menter £3m am 24 mis - lansiwyd hi ar 1af Mawrth 2021
- Cyfarwyddwr – Yr Athro Adrian Edwards
- Tîm craidd - Dr Natalie Joseph-Williams, Dr Alison Cooper, Dr Micaela Gal, Dr Ruth Lewis
- Yn ogystal â 6 Phartner Cydweithredol
- Cyfuno tystiolaeth, rhoi gwybodaeth ar waith ac ymchwilio a gwerthuso cyflym – i wella ansawdd a diogelwch cyflenwi iechyd a gofal yng Nghymru

# Gofyn y cwestiynau iawn

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

- Gallai rhestr y cwestiynau diddorol ynglŷn â COVID-19 y gallen ni eu harchwilio ar draws maes **iechyd a gofal cymdeithasol** fod yn ddi-ben-draw

- Mae angen i ni flaenoriaethu cwestiynau sydd:
  - yn bosibl eu **hateb**
  - yn edrych ar **anghenion pwysicaf** ein poblogaeth
  - yn debygol o gael effaith ar **systemau iechyd a gofal cymdeithasol** yng Nghymru
  - o bosibl yn gallu **gwneud gwahaniaeth**, mewn **modd amserol**
  - yn gallu ein cefnogi i **adfer** ac **ailadeiladu**

# Blaenoriaethu Cwestiynau Ymchwil – Ymgynghori â Rhanddeiliaidn

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

- Ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ar draws maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru i nodi'r anghenion pwysicaf o ran tystiolaeth

- Mae grwpiau rhanddeiliaid yn cynnwys:
    - Grwpiau cleifion a'r cyhoedd
    - Darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal
    - Gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol
    - Gofal cymdeithasol
    - Y rheini sy'n llunio polisi
    - Y trydydd sector
    - Ymchwilwyr iechyd a gofal

# Proses Blaenoriaethu Cwestiynau Ymchwil – Ymgynghori â Rhanddeiliaid

**CYFNOD 1 – CWMPAS**

Grwpiau rhanddeiliaid yn nodi hyd at 10 o'r cwestiynau ymchwil pwysicaf, gan eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth

**CYFNOD 2 – ASESU**

- perthnasedd i gyd-destun COVID-19 ar hyn o bryd neu yn y dyfodol yng Nghymru
- pwysigrwydd y bwlch mewn tystiolaeth
- buddion posibl
- y potensial i wneud gwahaniaeth
- yr angen am wybodaeth amserol

**CYFNOD 3 – CYTUNO**

Cytuno ar raglen waith ar gyfer y blaenoriaethau tystiolaeth ar y brig (ac adolygu hon yn rheolaidd)

WHESS

Welsh Health Economic Support Service

Gwasanaeth Cymorth Economeg Iechyd Cymru

Uned Arbenigol ar Dystiolaeth Adolygu

SuRE

Specialist Unit for Review Evidence

SAIL DATABANK

JOANNA BRIGGS COLLABORATION

The Wales Centre for Evidence Based Care

A Joanna Briggs Institute Centre of Excellence

Technoleg Iechyd Cymru

Health Technology Wales

GIG CYMRU NHS WALES

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Public Health Wales

# Fforwm Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru – Ymgynghori â Rhanddeiliaid

Wales COVID-19 Evidence Centre
Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru

- *Cyn y digwyddiad* – gofyn i bobl awgrymu hyd at 3 maes pwysig o ran ymchwil COVID-19

  1. **Dywedwch wrthym ni y cwestiwn / maes ymchwil sy'n bwysig yn eich barn chi**
  2. **Dywedwch wrthym ni pam ei fod yn bwysig**
  3. **Pwy allai'r cwestiwn neu'r maes ymchwil dan sylw fod o fudd iddyn nhw, a sut allai'r atebion hyn ein helpu i adfer ac ailadeiladu wrth i ni symud allan o'r pandemig?**

- *Yn fyw*- helpu i roi'r Deg Prif Faes Blaenoriaeth yn eu trefn

- *Ar ôl y digwyddiad* – pa gwestiynau yw'r rhai pwysicaf?

# Y 10 Prif Faes Blaenoriaeth

- Effaith ar iechyd meddwl y boblogaeth gyffredinol
- Agweddau'r cyhoedd tuag at wisgo masg, cadw pellter cymdeithasol ac ati
- Effaith ar breswylwyr cartrefi gofal
- Effaith ar sgrinio am ganser a'i drin
- Effaith ar lesiant ac iechyd staff gofal
- Y ffyrdd gorau i leihau lledaeniad COVID-19
- Agweddau'r cyhoedd tuag at frechu
- Effaith ar gyflyrau iechyd heblaw am COVID-19
- Gwersi y gellir eu dysgu o newidiadau i ffyrdd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal
- Effaith ar iechyd a llesiant pobl ifanc

INSERT MENTI METER LINK